# Arwain taith geffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys arwain taith geffylau, yn cynnwys dilyn llwybr y daith, monitro cleientiaid, a nodi ac ymateb i unrhyw sefyllfaoedd peryglus. Mae'r safon hon yn berthnasol i deithiau o bob hyd.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. arwain taith geffylau gan ddilyn y llwybr cywir, o fewn y raddfa amser gytûn
3. monitro cleientiaid ac amodau, yn unol â gweithdrefnau cytûn
4. nodi sefyllfaoedd peryglus a chymryd camau unioni priodol, o fewn terfynau eich awdurdod
5. rhoi gwybodaeth i gleientiaid ar adegau a chyfnodau priodol, yn cynnwys sefyllfaoedd peryglus (i'r marchog a'r ceffyl), mannau o ddiddordeb lleol a chynnydd y daith
6. cadw at y gweithdrefnau cytûn mewn argyfwng
7. dilyn y gweithdrefnau sydd eisoes wedi eu nodi yn cynnwys rhannau perthnasol o Reolau'r Ffordd Fawr a'r Côd Cefn Gwlad/Mynediad, bob amser
8. trafod y daith gyda'r cleientiaid a chael adborth
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. yr amodau diogel ar gyfer merlota
3. defnyddio mapiau, cwmpawd a GPS wrth arwain taith geffylau
4. sut mae'r tywydd yn effeithio ar dirweddau gwahanol
5. y rhesymau dros wirio aelodau'r daith yn barhaus
6. y gweithdrefnau brys priodol os bydd damwain, digwyddiad neu salwch, ar gyfer y ceffyl a'r marchog
7. pryd y mae'n angenrheidiol cael cynorthwywyr ar y daith
8. eich cyfrifoldeb yn unol ag adrannau perthnasol o Reolau'r Ffordd Fawr a'r Côd Cefn Gwlad/Mynediad
9. y mathau o beryglon i geffylau a marchogion a allai fod yn bresennol wrth ferlota
10. sut i adnabod trallod cleient
11. sut i adnabod problemau gyda cheffylau
12. y gweithdrefnau cytûn yn ymwneud â mynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffyl
13. cysylltiadau cwsmeriaid a phwysigrwydd cyfathrebu da cyn, yn ystod ac ar ôl y daith
14. sut i ymdrin ag unrhyw broblemau a chyfyngiadau awdurdod
15. sut y gofelir gam geffylau ar ôl taith
16. pam y mae'n bwysig sicrhau yr hysbysir ynghylch pob digwyddiad
17. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Monitro'r amodau canlynol:

- tywydd
- tirwedd
- iechyd cleientiaid
- agwedd cleientiaid
- lles ceffylau

Cael adborth gan gleientiaid:

- bodlonrwydd cwsmeriaid
- llwybr
- hyd
- amseru

Arwain teithiau o hyd amrywiol (hyd at un diwrnod).

Ymdrin â'r canlynol:

- cwynion
- sylwadau
- argymhellion

# Arwain taith geffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq327 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; taith; arweinydd |